Papur 2

**Julie James AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Aelod o'r Senedd dros Ogledd Cymru
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Y Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

10 Mehefin 2024

Annwyl Llŷr

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Mai yn nodi'r ohebiaeth a gafodd y Pwyllgor gan y Cynghorydd Joanna Protheroe mewn perthynas ag effaith SATC23 ar allu awdurdodau lleol i gyrraedd sero net erbyn 2030.

Gweler isod yr wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani.

1. A allwch egluro a yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i darged i bob tŷ cymdeithasol fodloni safon EPC A erbyn 2030, ac os felly pryd y gwnaethoch hynny? Os cafodd targed ei osod ar gyfer 2030, a'i ddiwygio ers hynny, a allwch egluro'r rhesymau dros hyn?

Nid yw Llywodraeth Cymru erioed wedi gosod targed i bob tŷ cymdeithasol fodloni safon EPC A erbyn 2030. Y safon flaenorol oedd i bob tŷ cymdeithasol fodloni safon EPC D (SAP 65), ac mae hyn wedi'i gyflawni. Disodlodd SATC23 y safon flaenorol ar 1 Ebrill 2024. Y targed newydd yw i bob tŷ cymdeithasol fodloni safon EPC A (SAP 92) yn y dyfodol, ac mae'n sicrhau bod y safon cartrefi cymdeithasol presennol yn unol â'r safon ar gyfer tai cymdeithasol newydd, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021.

Yn ystod y broses ymgynghori, y bwriad gwreiddiol oedd i bob tŷ cymdeithasol fodloni safon EPC A (SAP 92) erbyn 2033. Fodd bynnag, bu gwrthwynebiad cryf yn erbyn hyn oherwydd pryderon ynghylch ymarferoldeb, cost, cadwyni cyflenwi a sgiliau, a phenderfynwyd ar y safon derfynol yn dilyn ystyried y teimladau cryf ym mhob rhan o'r sector tai. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yma.
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-01/crynodeb-o-ymatebion.pdf

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol ddeall eu cartrefi yn llawn a'r camau sydd eu hangen i fodloni safon EPC A. Rhaid casglu'r dystiolaeth hon drwy gynnal asesiad o'i stoc gyfan a chynhyrchu llwybrau ynni unigol wedi'u targedu ar gyfer pob cartref erbyn 31 Mawrth 2027. Bydd y llwybrau ynni hyn yn cynnwys y rhaglen o welliannau a fydd eu hangen i sicrhau bod cartref yn bodloni safon EPC A (SAP 92) yn y dyfodol. Mae'r gofynion hyn yn cael eu llywio gan y gwersi cynnar a ddysgwyd o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP).

2. A allwch ddweud erbyn pryd rydych yn disgwyl i bob cartref cymdeithasol fodloni safon EPC A?

Bydd yr amserlenni'n cael eu llywio gan allbynnau'r asesiad o'r stoc gyfan a'r llwybrau ynni unigol wedi'u targedu y mae'n rhaid i landlordiaid cymdeithasol eu llunio ar gyfer pob cartref erbyn 31 Mawrth 2027. Bydd y llwybrau ynni unigol hyn yn cynnwys y rhaglen o welliannau a fydd eu hangen i sicrhau bod y cartref hwnnw yn bodloni safon EPC A (SAP 92) yn y dyfodol. Dim ond ar ôl i'r camau hyn gael eu cyflawni y byddwn yn gallu dweud pryd y bydd pob cartref cymdeithasol yn bodloni EPC A (SAP 92).

O ystyried yr angen i ysgogi buddsoddiadau a monitro cynnydd tuag at ein targed tymor hir, rydym wedi cyflwyno targed dros dro i bob cartref cymdeithasol fodloni safon EPC C (SAP 75) erbyn 31 Mawrth 2030.

Nid yw'r safon na'r gofyniad i landlordiaid cymdeithasol lunio llwybrau ynni unigol yn atal unrhyw landlord cymdeithasol rhag bodloni safon EPC A neu ei thebyg ar draws ei stoc dai yn gynnar.

Mae pob cartref cymdeithasol newydd sy'n cael ei ariannu dan y Grant Tai Cymdeithasol eisoes yn cyflawni ardystiad perfformiad ynni o EPC A (SAP 92 neu uwch) neu ei thebyg, fel safon Passivhaus.

3. Pa asesu a wnaed o effaith y safon ar gyfer effeithlonrwydd ynni ar allu awdurdodau lleol sydd â stoc dai i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030?

Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol, gan gynnwys awdurdodau lleol sydd â stoc tai, fodloni safon EPC A (SAP 92). Fodd bynnag, nid yw EPC A (SAP 92) yn cyfateb yn awtomatig i gartref carbon sero-net. Mae cartrefi sy'n bodloni safon EPC A ar hyn o bryd yn debygol o ddod yn sero-net mewn yn weithredol yn y dyfodol wrth i'r cyflenwad trydan barhau i gael ei ddatgarboneiddio.

Mae'r Rhaglen Tai Arloesol (2017–21) wedi bod yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar ymddygiad tenantiaid mewn cartrefi carbon isel a di-garbon, ac mae wedi dangos y gellir dylunio ac adeiladu cartrefi i gyflawni carbon sero-net yn weithredol.

Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae'r tenant yn defnyddio'r cartref, yn benodol ei ddefnydd o ynni, yn cael effaith sylweddol ar b'un a yw'r cartref hwnnw'n cyflawni sero net yn weithredol. Mewn enghraifft ddiweddar mewn datblygiad adeiladu newydd yng Ngogledd Cymru a adeiladwyd i fodloni safon EPC A, biliau gwresogi dau dŷ yn union yr un fath oedd £50 y mis a £300 y mis. Yn seiliedig ar y synwyryddion monitro sydd wedi'u gosod yn y ddau gartref, gallai'r landlordiaid cymdeithasol briodoli'r amrywiad i ymddygiad y tenant. Ar ôl i'r landlord cymdeithasol ymgysylltu â'r tenant, a chyda chymorth tenantiaid eraill yn yr un datblygiad, llwyddodd y tenant i leihau ei ddefnydd o ynni, ei filiau a'r allyriadau carbon o'r cartref yn sylweddol.

Nid yw'r defnydd o ynni gan breswylwyr mewn tai rhent cyngor a thai cymdeithasol o fewn cwmpas yr adroddiadau mewn perthynas â'r uchelgais i fod yn sector cyhoeddus sero-net erbyn 2030. Mae'r Canllaw Adrodd ar Sector Cyhoeddus Carbon Sero Net yng Nghymru ar gael yma: [Canllaw ar Adrodd ar Garbon Sero-Net Sector Cyhoeddus Cymru (llyw.cymru)]

O ran y gwall a nodwyd ym mhennod ragarweiniol SATC23, gwnaed cywiriad i'r ddogfen gyhoeddedig. Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth uchod yn rhoi'r eglurhad y gofynnodd y pwyllgor amdano.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, ac at y Cynghorydd Joanna Protheroe, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning